Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon
Brynglas Drive
Casnewydd
NP20 5QS
Tel/Ffôn: 01633 850804

E-mail/E-Bost: ysgol.gymraegbroteyrnon@newport.gov.uk
Gwefan/Website: www.ygbt.co.uk

Pennaeth: Mrs Lona Jones-Campbell

"Ysgol i Esgor Gobeithion"
"A Place to Nurture our Aspirations"

09/09/20

Annwyl Rieni /Warchodwyr,

Croeso nôl i ddechrau tymor gwahanol iawn i ni gyd. Yn gyntaf neges bersonol i ddiolch i chi gyd am eich negeseuon o gefnogaeth a chydymdeimlad yn dilyn profedigaeth fy Mam. Roedd cefnogaeth teulu Bro Teyrnon yn gysur mawr i mi.

Mae dechrau'r tymor wedi rhedeg yn llyfn o achos ymdrechion pawb i gydweithio. Hoffwn ddiolch i'r staff am baratoi'r safle a'r dosbarthiadau mor drwyadl ac i chi ein cymuned am gydweithredu gyda'r holl weithdrefnau a rheolau gwahanol. Mae'r plant wedi bod yn arbennig o dda wrth iddynt ymgyfarwyddo gyda phob dim. Hoffwn gadarnhau isod manylion pellach am ychydig o bwyntiau gwahanol.

Llyfrau Darllen – Derbyn i Flwyddyn 6 – Fe fyddwn yn parhau gyda'r gweithdrefnau cynllun benthyg llyfrau ond fe fydd ychydig o newidiadau i'r trefniadau er mwyn cadw pawb yn ddiogel. Pan fydd y plant yn dychwelyd eu llyfrau i'r ysgol fe fyddant yn cael eu gosod mewn bocs am 3 diwrnod i'w dadheintio. **O ganlyniad i'r gweithdrefnau yma fe fydd y llyfrau'n cael eu dosbarthu ar Ddydd Gwener a'u dychwelyd ar Ddydd Llun**. **Ni chaniateir i chi ddychwelyd llyfrau ar ddiwrnod arall! Os fe fydd plentyn yn dychwelyd bag ar ddiwrnod arall ni fyddwn yn ei dderbyn a dychwelir y bag adref gyda'r plentyn.** Gwerthfawrogwn fod rhai ohonoch yn brysur ar benwythnos felly os oes angen cadw'r llyfr am bythefnos rhwydd hynt i chi wneud ond dyma'r system a fydd yn cael ei weithredu am y tro. Cwblhewch y daflen atodol a'i dychwelyd i'r ysgol erbyn y 14eg o Fedi.

Pellter Cymdeithasol – Fe fydd athrawon yn cadw pellter o 2m o'r plant ond os oes rhaid rhoi cynhaliaeth a bod angen mynd yn agosach fe fydd y staff yn gwisgo mwgwd wyneb neu orchudd wyneb plastig. Pan fydd angen cefnogi disgybl yn dilyn damwain a bod angen ei lanhau yna fe fydd yr aelod o staff yn gwisgo mwgwd wyneb, gorchudd wyneb plastig a menig. Rydyn ni wedi egluro hyn i'r plant ond fe fyddwn yn gwerthfawrogi pe byddech yn gallu egluro'r gweithdrefnau iddynt fel eu bod yn deall ein bod yn gwneud hyn er mwyn cadw pawb yn ddiogel.

Mynedfeydd i'r Safle – Cofiwch mai un giât mynedfa sydd i'r safle ac un giât ar gyfer yr allanfa. Dilynwch yr arwyddion ar gyfer rhesi wrth giât mynedfa yn y bore i'r ochr dde ac ar ddiwedd dydd defnyddiwch y marciau ar y llawr i'ch tywys yn ddiogel i'r cyfeiriad cywir ar hyd y safle. Rydyn ni wedi gosod smotiau ar y llawr i'ch helpu i gadw 2m o belter cymdeithasol oddi wrth oedolion eraill pan rydych chi ar y safle.

Trefniadau Diwedd Dydd – Diolch i bawb am gadw at y trefniadau un ffordd ar ddiwedd dydd ac am ddefnyddio'r smotiau ar y llawr i gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr. Fe fyddwn yn parhau gyda'r trefniant yma boed glaw neu hindda felly gwnewch yn siŵr bod eich plentyn yn dod a chôt i'r ysgol.

Casglu plant o'r Ysgol - Os oes rhaid i chi gasglu eich plentyn o'r ysgol fe fydd angen i chi hysbysu'r swyddfa 'mlaen llaw. Pan fyddwch ar y safle fe fydd angen i chi ddod at y system diogelwch sydd wrth ochr y brif fynedfa ac fe fydd modd i chi siarad gyda Mrs Howells trwy'r system diogelwch i'w hysbysu eich bod ar y safle. NI CHANIATEIR I CHI DDOD I MEWN I'R PRIF ADEILAD. Gofynnwn yn garedig i chi aros ar waelod grisiau'r brif fynedfa tan fod aelod o staff yn rhyddhau'r plentyn i chi o ddrws y brif fynedfa.

Cinio Ysgol – Rydyn ni wrthi'n gwneud trefniadau i ddarparu cinio poeth ar gyfer y plant o'r 21/9/20. Er mwyn symud ymlaen gyda'r gweithdrefnau rydyn ni angen casglu gwybodaeth ar amcan rifau i fesur y galw o ran faint o blant fydd am gael cinio ysgol ar ddiwrnodau gwahanol. Yn ddibynnol ar y rhifau fe fyddwn yn rhannu mwy o wybodaeth wythnos nesaf i gadarnahu pryd bydd modd i'r plant cael cinio ysgol. Hoffwn i chi nodi ar y daflen atodedig ar pa ddiwrnodau fyddech chi'n debygol o archebu cinio ysgol ar gyfer eich plentyn. **Cwblhewch y ffurflen "Dangos Didordeb Mewn Cinio Ysgol" sydd wedi ei hatodi a'i dychwelyd i'r ysgol erbyn Dydd Gwener y 11eg o Fedi.** Yn anffodus dydyn ni ddim wedi derbyn y fwydlen eto ond pan ei derbyniwn fe fyddwn yn ei dosbarthu'n syth. Ni ddisgwylir i chi lynu'n gaeth at yr hyn fydd ar eich taflen ond fe fydd yn fan cychwyn i ni ar gyfer y gwaith cynllunio.

Fe fydd Plant Cinio am Ddim yn derbyn cinio o'r gegin yn ddyddiol.

Clwb Brecwast 8:20 – 8:50 – Atodwn ffurflen Clwb Brecwast. Os rydych chi am i'ch plentyn fynychu'r clwb brecwast fe fydd angen i chi gwblhau'r ffurflen atodol a'i dychwelyd i'r ysgol erbyn yr 11eg o Fedi. Fe fydd ceisiadau gan blant cinio am ddim yn cael blaenoriaeth ac yna fe fyddwn yn dilyn y drefn o ran y cyntaf sy'n dychwelyd y ffurflenni caiff flaenoriaeth o ran llefydd. Fe fydd y gegin yn darparu bag brecwast - mwy o fanylion i ddilyn ar gyfer y teuluoedd sy'n cofrestru. Ein bwriad yw anelu i gychwyn y Clwb Brecwast ar y 21ain o Fedi.

Mygydau Wyneb – Nid oes anegn i blant cynradd wisgo mygydau wyneb yn yr ysgol. Mae angen i blant 11 mlwydd oed wisgo mygydau wyneb ar drafnidiaeth a **disgwylir iddynt gadw'r mwgwd mewn bag plastig bach** yn ei bag ysgol yn ystod y dydd. Os ydynt yn gwisgo mwgwd un defnydd, yna bydd angen un bag ar gyfer hen fygydau a bag arall ar gyfer mygydau glân. Ni ddisgwylir i blant eraill wisgo mwgwd wyneb.

Yr eiddoch yn gywir,

Mrs Lona Jones-Campbell (Pennaeth)

Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon
Brynglas Drive
Casnewydd
NP20 5QS
Tel/Ffôn: 01633 850804

E-mail/E-Bost: ysgol.gymraegbroteyrnon@newport.gov.uk
Gwefan/Website: www.ygbt.co.uk

Pennaeth: Mrs Lona Jones-Campbell

"Ysgol i Esgor Gobeithion"
"A Place to Nurture our Aspirations"

09/09/20

Dear Parents / Guardians,

Welcome back to the start of a very different term for us all. Firstly, a personal message to thank you all for your messages of support and sympathy following my Mum's passing. The support of the Bro Teyrnon family was a great comfort to me.

The term has started very smoothly due to everyone's efforts to work together. I would like to thank the staff for preparing the site and classes so thoroughly and to you our community for cooperating with all the different procedures and rules. The children have been particularly good familiarising themselves with the new arrangements. I would like to confirm below further details on a few different points.

Reading Books – Reception to Year 6 - We will continue with the book loan scheme but there will be some changes to the arrangements to keep everyone safe. When the children return their books to school they will be boxed for 3 days to decontaminate. **As a result of these procedures the books will be distributed on a Friday and returned on a Monday. You're not allowed to return books on another day! If a child returns a bag on another day we will not accept it and the bag will be returned home with the child.** We appreciate that some of you are busy on a weekend so if you need to keep the book for two weeks you can do so. This is the system that will be implemented for the time being. Please complete the attached sheet and return to school by the 14th of September.

Social Distancing - Teachers will keep a distance of 2m from the children but if support has to be given and it is necessary to get closer the staff will wear a face mask or plastic face shield. When a pupil has an accident and an area needs to be cleaned the staff member will wear a face mask, plastic face shield and gloves. We have explained this to the children but would appreciate it if you could explain the procedures to them so that they understand that we are doing this to keep everyone safe.

Entrances to the Site – Please remember that there is one entrance gate to the site and one exit gate. Follow the signs that direct you to queue to the right of the entrance gate in the morning and at the end of the day use the markings on the floor to guide you safely along the oen way system on the site. We've placed spots on the floor to help you adhere to 2m social distancing from other adults whilst you're on site.

End of Day Arrangements - Thanks to everyone for sticking to the one way arrangements at the end of the day and for using the spots on the floor to maintain a social distance of 2 meters. We will continue with this arrangement come rain or shine so make sure your child brings a coat to school.

Collecting Children from School - If you have to collect your child from school you will need to inform the office in advance. When you are on site you will need to use the security system next to the main entrance and you will be able to talk to Mrs Howells via the security system to let us know you are on site. YOU WILL NOT BE PERMITTED TO COME INTO THE MAIN BUILDING. We kindly ask you to wait at the bottom of the main entrance stairs until a member of staff releases the child from the main entrance door.

School Lunch - We are making arrangements to provide school dinners for the children from the 21/9/20. In order to proceed with the procedures, we need to gather information on projected numbers to gauge demand in terms of how many children will wish to have school lunches on different days. Depending on the numbers we will be sharing

more information next week to confirm when the children can have school lunch. I would like you to indicate on the attached sheet what days you would be likely to order school lunches for your child. **Please complete the attached form "Expression of Interest in School Dinner" and return to school by Friday the 11th of September**. Unfortunately, we haven't received the menu yet but when we receive it we will distributed straight away. You are not expected to adhere strictly to what is on your leaflet but it will be our starting point for planning.

Children who qualify for Free School Meals will receive lunches from the school canteen daily.

Breakfast Club 8:20 - 8:50 - We attach a Breakfast Club form. If you want your child to attend the breakfast club you will need to complete the attached form and return it to school by September 11th. Requests from children eligible for free school meals will be given priority and then places will be allocated on a first come first serve basis. The kitchen will provide a breakfast bag - more details to follow for families who register for places. We aim to start the Breakfast Club on the 21st of September.

Face Masks - Primary children do not need to wear face masks at school. 11-year-olds need to wear face masks on transport and **we expect them to keep the mask in a small plastic bag in their school bag** during the day. If they are wearing a single use mask, then one bag will be needed for old masks and another bag for clean masks. Other children are not expected to wear a face mask.

Yours Sincerely

Mrs Lona Jones-Campbell
(Head Teacher)